# CYNGOR TREF LLANFAIRFECHAN TOWN COUNCIL

**Neuadd Gymunedol Tref Llanfairfechan, Ffordd y Pentref, Llanfairfechan LL330AB**
**Maer Cyng Nia Jones Dirprwy Faer Cyng Sharne-Marie Bellis**

**AGENDA Nos Fercher, Hydref yr 22ain, 2025**
**CYFARFOD Y CYNGOR TREF, 7yh Siambr Cyngor Llanfairfechan ac ar-lein dros Microsoft Teams**

1. Croesawu pawb i'r cyfarfod a rhannu'r wybodaeth weinyddol gyffredinol
2. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb (DLlL 1972 Atodlen 12)
3. Derbyn datganiadau o ddiddordeb – (Diddordebau personol neu ragfarnus y gellir eu datgelu)
4. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd
5. Derbyn a chymeradwyo cofnodion Hydref y 1af, 2025 (DLlL1972 Atodlen 12)
6. Derbyn a chymeradwyo cynlluniau staffio'r prosiect Cydraddoldeb/Equality
7. Derbyn a chymeradwyo'r adroddiad a chamau gweithredu nesaf y Prosiect Meinciau
8. Derbyn a chymeradwyo dyfynbrisiau ar gyfer atgyweirio / diogelu'r rhwydwaith yn y Neuadd Gymunedol
9. Derbyn a chymeradwyo caffael blwch ffôn BT Pendalar
10. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo newidiadau gweinyddol
11. Derbyn gwybodaeth am Farchnadoedd a digwyddiadau
12. Derbyn a chasglu Cofrestr o Ddiddordebau Aelodau
13. Derbyn cais grant Cymunedol S137
14. Derbyn a chymeradwyo'r taliadau cyfredol ar gyfer Hydref yr 22ain, 2025

| | |
|---|---|
| **Taliadau i'w cyflwyno** | |
| **1.** | **Antur Waenfawr gwastraff cyfrinachol £19.20** |
| **2.** | **Amazon business Gilotîn £49.99 / Pinnau Bawd £3.08 / Bwrdd Corc £12.92** |
| **3.** | **EPC Forestry Toriad Hydref Hawliau Tramwy Cyhoeddus £850.00** |
| **4.** | **Llogi Neuadd Gymunedol Llanfairfechan Grŵp Cynfilwyr (blynyddol) £390.00 / Hyfforddiant Iechyd Meddwl £200.00** |
| **5.** | **Core Highways LTD (Amberon) Cau Ffyrdd ar gyfer Sul y Cofio £982.00/ Ffair Nadolig £1459.00** |
| **6.** | **CBSC Pwll Padlo nawdd o Fai hyd at Fedi 2025 £5211.00** |
| **Taliadau ôl-ddyddiedig** | |
| 1. | **Networld Sports 'Weindiwr' Tenis ar gyfer y rhwyd £98.40** |

15. Derbyn gwybodaeth am faterion cynllunio:
    1. Dim wedi'u derbyn
16. Derbyn gohebiaeth
17. Derbyn adroddiadau o wahanol gyfarfodydd a digwyddiadau
18. Derbyn canmoliaethau, cwynion a materion brys i'w dwyn i ystyriaeth a'u cofnodi ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol

**Nos Fercher, Hydref yr 22ain, 2025**
**CYFARFOD Y CYNGOR TREF, 7yh Siambr Cyngor Llanfairfechan ac ar-lein dros Teams**

**COFNODION**

**Yn bresennol: Cadeirydd: Maer Nia Jones; Dirprwy Faer Sharne-Marie Bellis; Cyng. Leena Farhat; Cyng. Rhys Griffiths; Cyng. Chris Jones; Cyng. Christine Roberts; Cyng. Preben Vangberg; Cyng. Andrew Hinchliff BEM (ar-lein). Clerc y Dref: Jayne Neal; Dirprwy Glerc y Dref: Callum Morrison; Swyddog Prosiect Cydraddoldeb: Bethan Williams**

**1. Croesawodd y Maer Nia Jones bawb i'r cyfarfod a rhannodd y wybodaeth weinyddol gyffredinol. Cytunwyd i recordio'r cyfarfod er mwyn llunio'r cofnodion. Penderfynwyd derbyn a nodi**

**2. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb (DLlL 1972 Atodlen 12)**

**Cyng. Penny Andow (Cynghorydd Tref a Sir); Cyng. Charlotte Davies; Cyng. Gareth Jones; Cyng. Alun Rhys Jones;**

**Penderfynwyd derbyn a nodi**

**3. Derbyn datganiadau o ddiddordeb – (Diddordebau personol neu ragfarnus y gellir eu datgelu)**

**Eitem 8 – Dirprwy Glerc y Dref: Datgelodd Callum Morrison ddiddordeb personol gan fod un o'r dyfynbrisiau wedi'i ddarparu gan ei Dad sy'n gyfarwyddwr cwmni Ymgynghoriaeth TG sy'n arbenigo mewn Rhwydweithio.**

**Penderfynwyd derbyn a nodi**

**4. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd**

**Dim preswylwyr yn bresennol. Penderfynwyd derbyn a nodi**

**5. Derbyn a chymeradwyo cofnodion Hydref y 1af, 2025, (DLlL1972 Atodlen 12). Cafodd y rhain eu nodi wedi eu darllen. Nododd y Cyng. Andrew Hinchliff BEM bod datblygiad Gorwel wedi'i nodi yn y cofnodion diwethaf. Fe wiriodd yn gynharach heddiw (22/10/2025) a oedd apêl ar gyfer datblygiad Gorwel a bu iddo ganfod nad oedd apêl wedi'i gofrestru hyd yma.**

**Cynigwyd gan y Cyng. R Griffiths Eiliwyd gan y Cyng. C Roberts Penderfynwyd yn unfrydol i gymeradwyo a nodi**

**6.Derbyn a chymeradwyo cynlluniau staffio'r prosiect Cydraddoldeb/Equality Yn dilyn proses recriwtio, fe benodwyd Bethan Williams fel swyddog prosiect Cydraddoldeb/Equality. Roedd Bethan yn bresennol yn y cyfarfod, cyflwynwyd hithau a'i chroesawu i'r tîm. Dyddiad dechrau swyddogol Bethan yw Hydref y 29ain. Nodwyd bod staff y Cyngor Tref wedi trefnu popeth yn barod i Bethan gychwyn ar y 29ain (e-bost/cyfrifiadur/ac ati.) ac mae gan y staff gyfarfod wedi'i drefnu gyda Manon ar y 29ain hefyd (sy'n helpu gydag arwain ein Prosiect Gŵyl Ferlod eleni), fel y bydd modd i Bethan fod yn barod i gynorthwyo yn ein digwyddiad ar Dachwedd y 1af.**

**Penderfynwyd yn unfrydol i gymeradwyo a nodi**

**7. Derbyn a chymeradwyo'r adroddiad a chamau gweithredu nesaf y Prosiect Meinciau Mae'r Cyng. C Roberts wedi cymryd yr awenau dros y prosiect hwn ac wedi cynnal arolwg o'r meinciau sydd wedi'u gosod ar hyd lan y môr a rhan isaf Llanfairfechan. Mae angen gwirfoddolwyr / gwaith trefnu pellach i gynnal arolwg o'r meinciau yn rhan uchaf y pentref. Nododd bod 3 mainc yn benodol gyda phroblemau: mae'r fainc ger yr arhosfan bws o gyfeiriad y fynwent wedi'i chyrydu gan rwd, mae 2 rybed ar goll o'r fainc ger y co-op, mae'r paent coch wedi gwisgo o'r fainc ger y senotaff. At hyn, mae traul gyffredinol ar y meinciau 'pren naturiol' o amgylch y cob. Mae'r pren yn cracio ac mae ganddo ymylon miniog. Nodwyd bod y person oedd yn gyfrifol am osod y meinciau pren naturiol wedi dweud bod disgwyl i'r meinciau pren naturiol gracio gan mai dyma ydy natur pren naturiol. Gofynnwyd ein bod yn gofyn i Gareth (gof lleol) i fwrw golwg ar y meinciau metel a nodwyd (uchod) sydd wedi'u difrodi a chynnig dyfynbrisiau am eu hatgyweirio neu eu hamnewid os oes angen. Y gobaith oedd gosod panel metel i atgyweirio'r difrod cyrydol yn hytrach na gosod mainc newydd sbon. Soniodd y Cyng. R Griffiths am feinciau picnic o 'blastig wedi'i ailgylchu' oherwydd rydym yn ymwybodol bod y rhain wedi'u difrodi. Soniodd Clerc y Dref bod y rhain yn eiddo i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) ac maen nhw'n meddu ar bolisi i gael gwared ar feinciau sydd wedi'u difrodi ond nid oes polisi ganddyn nhw i osod rhai newydd yn eu lle. Byddai'n rhaid i Gyngor Tref Llanfairfechan osod rhai newydd a'u meddiannu. Gofynnwyd a oedd gan y Cyngor Tref unrhyw arian yn y gronfa Prosiect Meinciau. Doedd gan Glerc y Dref ddim y ffigyrau, ond mae'n credu mai dim ond ychydig iawn o gyllid sydd yn y cyfrif gan ein bod ni wedi ariannu mainc picnic yng Ngerddi Fictoria yn ddiweddar. Nododd Clerc y Dref hefyd nad ydym ni wedi derbyn llawer o gyfraniadau'n ddiweddar. Awgrymodd y Cyng. L Farhat ein bod yn cynnal ymgyrch wybodaeth am y Prosiect Meinciau gan efallai nad yw'r preswylwyr yn ymwybodol o'r prosiect. Nododd y Cyng. C Roberts hefyd bod difrod i'r arwydd 'Croeso i Lanfairfechan / Welcome to Llanfairfechan' a gofynnodd inni holi Gareth am ddyfynbris i atgyweirio hyn gan ei fod yn cynnig dyfynbris am atgyweirio'r meinciau beth bynnag.**

**Cynigwyd gan y Cyng. C Jones Eiliwyd gan y Cyng. R Griffiths Penderfynwyd yn unfrydol i gymeradwyo a nodi**

**8. Nododd y Cyng. P Vangberg bod y dyfynbrisiau uwch hefyd yn cynnwys tâl am waith cynnal a chadw gwasanaeth parhaus sy'n gost flynyddol barhaus sylweddol. Nodwyd pan fyddwn yn mynd ati i uwchraddio'r system, mae'n rhaid inni fwrw golwg ar gostau cynnal parhaus yn ogystal â chostau ymlaen llaw i ddod o hyd i'r datrysiad gorau / mwyaf cost-effeithiol. Cytunwyd y byddai'r Cyngor Tref yn talu am y dyfynbris cyntaf gyda'r swm is er mwyn inni ddiogelu'r rhwydwaith. Bydd y Cyngor Tref yn cadw llygad am grantiau addas fel bod modd 'uwchraddio' y system rhwydwaith yn y dyfodol.**

**Cynigwyd gan y Cyng. C Jones Eiliwyd gan y Cyng. R Griffiths Penderfynwyd yn unfrydol i gymeradwyo a nodi**

**9. Derbyn a chymeradwyo caffael blwch ffôn BT Pendalar**

**Mewn cyfarfod blaenorol, cytunwyd y dylai'r Cyngor Tref ymchwilio i gaffael y ciosg ym Mhendalar i osod diffibriliwr. Mae BT wedi darparu cytundeb i'r Cyngor Tref i fabwysiadu'r ciosg. Nodwyd os na fyddai'r Cyngor Tref yn ei fabwysiadu yna fe gaiff y ciosg ei dynnu a ni fydd cyfle i'w fabwysiadu yn y dyfodol. Dyma'r prif bwyntiau o'r cytundeb gyda BT: 1) Talu'r ffi mabwysiadu o £1.00 2) Mae BT wedi cadarnhau nad oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer y ciosg hwn 3) Os caiff BT eu hysbysu bod diffibriliwr wedi'i osod, bydd BT yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb a'r costau ar gyfer y cyflenwad trydan am gyfnod o 7 mlynedd, sef oes diffibriliwr yn ei hanfod. 3.1) Mae BT yn gyfrifol am y cebl tanddaearol hyd at y blwch ffiws R.E.C yn siambr gwasanaeth y ciosg. 3.2) Bydd unrhyw namau yn y dyfodol y tu hwnt i'r pwynt hwn yn gyfrifoldeb perchennog y ciosg (gan gynnwys gosod bylbiau newydd). 3.3) Mae BT yn dwyn yr hawl i ddad-gysylltu'r cyflenwad trydan rhywbryd yn y dyfodol; fodd bynnag, bydd BT yn cysylltu gyda pherchennog y ciosg pe byddai hyn yn angenrheidiol. 3.4) Dydy BT ddim yn monitro'r cyflenwad trydan – bydd angen i'r Cyngor Tref wirio bod y diffibriliwr yn cael ei wefru. Mae'r Cyngor Tref eisoes yn gwirio ein diffibriliwyr yn rheolaidd i sicrhau bod y trydan yn gweithio. Gofynnodd y Cyng. L Farhat am arwydd ar gyfer y diffibriliwr. Mae cytundeb BT yn datgan bod y Cyngor Tref yn gyfrifol am yr arwydd ac mae'n rhaid iddyn nhw osod arwydd eglur a chywir. Gallwn hefyd ddefnyddio'r ciosg ar gyfer arwyddion eraill megis digwyddiadau, a chymorth mewn argyfwng ac ati. Nodwyd bod lleoliad y Ciosg yn fwy amlwg nac yn y Neuadd Gymunedol felly mae'n debyg y bydd yn gwneud preswylwyr yn fwy ymwybodol o ddiffibriliwr. Cytunodd y Cyngor Tref i gaffael y ciosg er mwyn symud y diffibriliwr o Neuadd Pendalar i'r ciosg.**

**Cynigwyd gan y Cyng. C Jones Eiliwyd gan y Cyng. C Roberts Penderfynwyd yn unfrydol i gymeradwyo a nodi**

**10. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo newidiadau gweinyddol Mae Clerc y Dref a'r Dirprwy Glerc wedi bod yn trafod ffyrdd o newid prosesau Swyddfa'r Clerc er mwyn sicrhau bod amser y staff yn fwy effeithlon a gwydn. 1) Cyfathrebu – mae blychau post ar y cyd newydd wedi'u sefydlu ar gyfer e-byst swyddfa@llanfairfechan.net a markets@llanfairfechan.net (mae'r cyfeiriadau e-byst hyn wedi'u sefydlu'n flaenorol ond o dan ffugenwau ynghlwm â chyfrif personol). Mae'r blwch post ar y cyd yn fodd i sawl aelod o staff ddefnyddio un prif gyfeiriad e-bost i dderbyn ac anfon. Mantais hyn ydy os bydd un aelod o staff yn absennol, yna gallai aelodau eraill o staff barhau gyda'r gwaith / prosiectau. Nid yw hyn yn bosibl ar hyn o bryd oherwydd fe fydd hanes yr e-byst mewn blwch post personol na fyddai modd i'r aelodau eraill o staff ei agor. Defnyddir y blychau post newydd ar gyfer y mwyafrif o gyfathrebu allanol. Mae hefyd yn fodd i unrhyw aelod o staff ymateb i ymholiad newydd. Bydd blychau e-bost personol yn dal yn bodoli. Mae'r system newydd hwn ar waith ac mae cyfeiriadau wedi'u newid mewn llofnodion e-bost, gwefannau ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Caiff gwybodaeth am hyn ei gyflwyno ar y cyfryngau cymdeithasol. Cynhaliwyd trafodaeth ac fe gytunodd y Cyngor Tref bod y newidiadau'n gadarnhaol a dylid eu hyrwyddo'n gyhoeddus. 2) Festiau Hi-vis – nododd Clerc y Dref a'r Dirprwy er bod gan y Cynghorwyr eu festiau hi-vis eu hunain adref, yn aml iawn dydyn nhw ddim yn dod a nhw efo nhw i ddigwyddiadau. Gofynnwyd a fyddai'r cynghorwyr yn dymuno cadw'r festiau hi-vis adref neu a fyddai'n well ganddyn nhw pe bai'r Clerc yn eu cadw yn y swyddfa ac yn dod a nhw i ddigwyddiadau. Nodwyd bod y cynghorwyr wedi mynd ati i'w cadw adref fel eu bod nhw ar gael mewn argyfwng (e.e. rheoli traffig mewn argyfwng neu i helpu gydag achosion o lifogydd). Trafododd y Cyngor Tref y mater a chytunwyd y byddai'n well ganddyn nhw gadw'r festiau adref. 3) Oriau agor – Yn ystod Covid, fe wnaethom newid oriau agor ein swyddfa am awr ychwanegol o 9yb-1yp. Rydym yn awyddus i fyrhau'r oriau agor yn ôl i 9 – 12 neu hyd yn oed eu newid fel eu bod yn dangos 9:30yb – 12:30 fel eu bod yn adlewyrchu amseroedd cychwyn CBSC. Rydym yn derbyn y rhan fwyaf o ymholiadau rhwng 10 a 11:30. Diben newid yr oriau agor yn ôl fyddai er mwyn i'r Clerc y Dref a'r Dirprwy reoli eu hamser a chanolbwyntio ar dasgau deddfwriaethol a gwaith prosiect yn hytrach nac ymholiadau yn ystod unrhyw amser o'r dydd. Bydd amser staffio gwirioneddol yn y swyddfa yn debygol o aros yn gyson trwy gydol yr wythnos gan fod gwell offer TG yn y swyddfa yn hytrach nac 'adref' ac mae'r llwyth gwaith yn gofyn amdano. Cynhaliwyd trafodaeth ac awgrymwyd y dylid anfon holiadur at breswylwyr**

i ganfod faint o'r gloch y byddan nhw'n hoffi i'r swyddfa fod ar agor. Clerc y Dre fi drefnu holiadur i'w gynnal ar y cyfryngau cymdeithasol ac yn y Marchnadoedd ac adrodd yn ôl yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Tref.
**Penderfynwyd yn unfrydol i gymeradwyo a nodi**

**11. Derbyn gwybodaeth am Farchnadoedd a digwyddiadau**

**Soniodd Dirprwy Glerc y Dref a'r Clerc y Dref am y digwyddiadau sydd ar y gweill a'r hyn sydd wedi'i gynllunio hyd yma. Hydref y 26ain – marchnad Calan Gaeaf, Tachwedd y 1af Gŵyl Ferlod, Tachwedd yr 8fed Noson tân gwyllt, Tachwedd y 9fed Sul y Cofio Llanfairfechan, Tachwedd yr 16eg Paratoi ar gyfer y farchnad Nadolig, Rhagfyr y 4ydd Bwffe Gwirfoddolwyr, Rhagfyr y 7fed Marchnad Nadolig. Mae'r holl ddigwyddiadau hyd at Sul y Cofio Llanfairfechan wedi'u paratoi a'u hyrwyddo'n llawn. Mae'r holl stondinau yn y Farchnad Nadolig wedi'u cadw hefyd. Gofynnodd Dirprwy Glerc y Dref i'r cynghorwyr wirfoddoli mewn digwyddiadau a helpu gyda threfnu pobl ac ati. Caiff e-bost ei hail-anfon gyda holl fanylion y digwyddiadau a bydd yn gofyn i'r cynghorwyr roi gwybod pryd maen nhw ar gael. Gofynnwyd am drefnu 'Digwyddiadau' Facebook ar gyfer pob digwyddiad. Nododd Dirprwy Glerc y Dref nad oes modd trefnu hysbysiadau ymlaen llaw ar gyfer y Digwyddiadau. Bydd gan y 'Digwyddiad' 1 hysbysiad pan gaiff ei drefnu a ni fydd unrhyw ddiweddariadau pellach. Nodwyd daeth Shaun i ymweld â Jayne heddiw (22/10/2025) i drafod y goleuadau Nadolig. Bydd yr holl waith wedi'i gwblhau erbyn Tachwedd yr 16eg yn barod i oleuo'r goeden Nadolig yn y farchnad 'Paratoi ar gyfer y Nadolig'. Cynigwyd goleuadau crog i Shaun hefyd i'w gosod ar ffordd yr orsaf. Mae cryn dipyn o waith i'w gynnal ar ffordd yr orsaf (profi pwyntiau pwysau, darparu pwyntiau trydan ac ati.). Mae'r goleuadau hyn am 'bris 2il law'. Awgrymodd Clerc y Dref y dylid prynu'r goleuadau (os ydy'r pris yn addas) i'w cadw fel cyflenwad i ehangu yn y dyfodol gan nad oes goleuadau 2il law ar werth yn aml. Clerc y Dref i ganfod y prisiau.** **Penderfynwyd derbyn a nodi**

**12. Derbyn a chasglu Cofrestr Diddordebau Aelodau** Estynnodd Clerc y Dref ddiolch i'r holl gynghorwyr a oedd wedi cwblhau a dychwelyd eu ffurflen ond nododd bod rhai cynghorwyr heb gwblhau a dychwelyd eu ffurflenni o hyd ac roedd yn awyddus i godi'r mater eto. Mae'r holl ffurflenni sydd wedi'u dychwelyd yn cael eu prosesu a'u cyflwyno ar wefan y Cyngor Tref. **Penderfynwyd derbyn a nodi**

**13. Derbyn cais grant Cymunedol S137** Mae'r grant wedi'i ymgeisio amdano gan yr ysgolion yn Llanfairfechan i dalu am gost aelodaeth yr Urdd i'r holl ddisgyblion ysgol. £1500 wedi'i ymgeisio amdano i Ysgol Babanod a £1500 ar gyfer Pant y Rhedyn. Mae aelodaeth i'r Urdd yn hyrwyddo'r Gymraeg ac yn gyfle i'r disgyblion gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau megis Disgos Distaw yn yr ysgolion, cymryd rhan mewn cystadlaethau chwaraeon a chynnal eisteddfodau ysgol a chystadlu yn erbyn ysgolion eraill. Yn hanesyddol, mae'r Cyngor Tref wedi darparu'r grant hwn gan ei fod yn cynnig cydraddoldeb fel y gallai unrhyw ddisgybl gymryd rhan mewn unrhyw ddigwyddiad os ydyn nhw'n dymuno. Nododd adroddiad o'r grant blaenorol 'Roedd cael y ddwy ysgol yn cyflawni gwobrau Cymraeg Campus hefyd yn nodwedd o lwyddiant y grant'. Mae'r Cyngor Tref wedi gofyn eisoes am y ffigwr sy'n cymryd rhan yn y rhaglen ar hyn o bryd, a bu i'r ysgolion ddarparu'r ffigyrau canlynol: "Y ffigyrau cymryd rhan cyfredol yw 115 yn Ysgol Pant Y Rhedyn a 108 yn Ysgol Babanod." Cytunodd y Cyngor Tref i ddarparu'r grant eleni. Nodwyd y bu i'r ysgolion ymgeisio am gyllid ychwanegol y llynedd ond dydyn nhw heb ymgeisio amdano eleni. Nodwyd y dylem ni fod yn annog ymgeiswyr i ymgeisio am y prosiect cyflawn yn hytrach na dim ond rhan o'r prosiect, hyd yn oed os yw wedi'i wrthod yn y gorffennol. Dydy'r Cyngor Tref ddim yn cadarnhau cymeradwyo'r grant, ond nid ydym am hyrwyddo sefyllfa lle nad yw ymgeiswyr yn ymgeisio oherwydd nad ydyn nhw wedi bod yn llwyddiannus yn y gorffennol. Clerc y Dref i wahodd yr ysgol i ail-ymgeisio am gyllid ychwanegol os oes angen.

**Cynigwyd gan y Cyng. P Vangberg, Eiliwyd gan y Cyng. R Griffiths Penderfynwyd yn unfrydol i gymeradwyo a nodi**

**14. Derbyn a chymeradwyo taliadau cyfredol ar gyfer Hydref yr 22ain, 2025**

Cymeradwywyd yr holl daliadau.

**Cynigwyd gan y Cyng. A Hinchliff BEM, Eiliwyd gan y Cyng. P Vangberg Penderfynwyd yn unfrydol i gymeradwyo a nodi**

**15. Derbyn gwybodaeth am faterion cynllunio:**

Dim materion cynllunio newydd yn codi.

**Penderfynwyd derbyn a nodi**

**16. Derbyn gohebiaeth**

**16.1. Derbyniwyd e-byst gan breswylwyr ynghylch y bin baw cŵn yn Nhyddyn Drycin sydd wedi rhydu.**

Rydym wedi gofyn i Gareth (gof) i ymchwilio a chyflwyno dyfynbris i'w atgyweirio. Polisi CBSC yw cael gwared ar unrhyw finiau sydd wedi torri ond peidio â gosod rhai newydd yn eu lle. Cytunodd y Cynghorwyr nad oedden nhw am golli'r bin yn gyfan gwbl. Cytunodd y Cynghorwyr os oes modd atgyweirio'r bin yna fe ddylen ni wneud hynny. Clerc y Dre fi ofyn am ddyfynbris gan Gareth.

**16.2. Derbyniwyd cwyn gan breswylydd ynghylch mater parcio ar Barc Cresent.**
Ar ôl rhywfaint o ymchwiliad, mae'r broblem yn bodoli oherwydd bod preswylydd sy'n cymryd sawl lle parcio ac yn achosi rhwystr i fynediad Parc crescent. Y brif broblem yw bod un o'r cerbydau wedi torri ac yn tywallt olew ar hyd y ffordd. Nodwyd hefyd bod y cerbydau wedi'u parcio wedi atal lorïau bin rhag teithio i lawr y ffordd ac felly mae rhai casgliadau'n cael eu colli. Mae'r Cynghorwyr yn credu cafodd hyn ei lanhau ond mae'r cerbyd wedi tywallt olew eto yn ddiweddar. Mae gan y person dan sylw dacsis wedi'u cofrestru yng Ngwynedd felly rydym yn ei chael hi'n anodd gyda ffiniau trawsffiniol gan fod camau cyfyngedig y gall naill ai gynghorau Sir Gwynedd neu Gonwy eu cymryd. Yn dilyn ymchwilio, fe ddylid cadw cerbydau sydd wedi'u trwyddedu fel tacsis oddi ar y lôn pan nad ydyn nhw'n cael eu defnyddio. Mae Clerc y Dref wedi adrodd i adran drwyddedu Conwy a Gwynedd bod y cerbydau'n cael eu cadw ar y ffordd. Gofynnodd Clerc y Dref i rai o'r cynghorwyr gadw llygad ar y sefyllfa a chymryd lluniau pan fo cerbydau'n rhwystro mynediad. Yna gellir anfon y rhain ymlaen at Heddlu Gogledd Cymru a allai fynd i'r afael â'r mater. Cafodd un cerbyd ei farcio'n SCORN ac mae wedi'i adrodd i Heddlu Gogledd Cymru.

**16.3. Derbyniwyd cwyn gan breswylydd ynghylch tipio anghyfreithlon a biniau domestig ym maes parcio Ffordd yr Orsaf.** Soniodd y preswylydd bod problem barhaus gydag aelodau anawdurdodedig o'r cyhoedd yn defnyddio biniau i gael gwared ar sbwriel yn anghyfreithlon, ynghyd â thipio'n anghyfreithlon o amgylch ardal y biniau ailgylchu dillad. Mae'r defnydd anawdurdodedig o'r biniau hyn yn golygu bod gormodedd o fagiau du gyda gwastraff bwyd gan nad yw'r preswylwyr yn derbyn biniau gwastraff bwyd ac mae'n rhaid iddyn nhw roi unrhyw wastraff bwyd mewn biniau du. Pan mae'r biniau'n gorlifo does dim modd cau'r caeadau ac mae gwylanod ac adar eraill yn rhwygo'r bagiau bin ac yn gwasgaru'r sbwriel a'r gwastraff bwyd ledled y maes parcio, ac mae hyn yn arwain at lygod mawr hefyd yn chwilota am fwyd yno. Nododd y Cyngor Tref hefyd y bu hyn yn broblem barhaus am gyfnod hir o amser. Mae rhai camau gweithredu wedi'u cymryd. Mae'r biniau wedi'u symud unwaith i leoliad newydd yn y maes parcio. At hyn, mae Teledu Cylch Cyfyng wedi'i osod, soniodd y preswylydd bod y Teledu Cylch Cyfyng wedi lleihau'r broblem ond heb gael gwared arno'n gyfan gwbl. Mae cloeon wedi'u hatodi i'r biniau ond maen nhw wedi'u torri i ffwrdd ar sawl achlysur. Mae arwyddion wedi'u gosod yn ogystal. Soniodd y preswylydd bod un arwydd wedi'i guddio y tu ôl i'r biniau ac roedd llystyfiant wedi gordyfu drosto. Mae'r 2[il] arwydd fwyaf amlwg pan fyddwch yn gadael y maes parcio, yn ôl pob tebyg ar ôl i bobl dipio yn anghyfreithlon. Cytunodd y Cyngor Tref i docio'r llystyfiant sy'n gordyfu ger y biniau a'r arwydd. At hyn, bydd y Cyngor Tref yn sicrhau bod yr arwydd ger ochr y ffordd yn un dwy ochr fel bod modd gweld yr arwydd o'r ffordd. Gofynnodd y Cyngor Tref i'r preswylydd adrodd am unrhyw broblemau'n barhaus gan ddefnyddio rhaglen Rhoi Gwybod Conwy. Penderfynwyd na ddylai'r Cyngor Tref godi'r mater gyda CBSC ar hyn o bryd (sy'n berchen ar y biniau) gan ei fod wedi'i grybwyll eisoes ac ni chymerwyd unrhyw gamau pellach. Dirprwy Glerc y Dref i ymateb i'r preswylydd, trefnu tocio'r llystyfiant, a sicrhau bod yr arwydd wedi'i osod mewn lleoliad priodol.

**16.4. Derbyn cais gan Arweinydd y Tîm Llifogydd yn CBSC** Mae gan y Tîm Llifogydd ddiweddariad maen nhw'n dymuno ei rannu gyda'r Cyngor Tref ynghylch gwaith dros dro cyn y bydd y gwaith diogelu ar raddfa fawr yn mynd rhagddo. Gofynnodd Owen am fod yn bresennol yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Tref i gynnig y diweddaraf wyneb yn wyneb. Clerc y Dref i ychwanegu hyn at agenda'r cyfarfod.

**Penderfynwyd derbyn a nodi**

**17. Derbyn adroddiadau o wahanol gyfarfodydd a digwyddiadau**

**17.1. Cyfarfod Neuadd Gymunedol Llanfairfechan** – Cynhaliwyd arolwg o'r atig / to. Dim ond 7 ystlum o 2 wahanol frîd sydd wedi'u darganfod. Mae deunydd ynysu wedi'i archebu i'w osod yn y to ym mhob ac eithrio lle mae'r ystlumod. Mae'n rhaid gosod deunydd ynysu arbennig ar y rhan hon o'r to. Yn y 18 mis diwethaf, mae £194,000 wedi'i godi drwy gyllid grant. Nodwyd y dylai'r neuadd gymunedol a'r Cyngor Tref gydweithio i hyrwyddo'r swm o arian a godwyd ar gyfer Cymuned Llanfairfechan. Bu'r Paneli Solar yn effeithiol dros ben, ynghyd â newid y cytundeb ynni. Roedd y bil trydan misol blaenorol ond yn £150 ac roedd yn oddeutu £1500 y llynedd. Mae'r Neuadd Gymunedol ar y ffordd i fod yn hunan-gynhaliol. Roedd y noson band diweddar (Beatles Complete) yn llwyddiant ysgubol, ac rydym yn gobeithio y byddan nhw'n rhoi gwybod i artistiaid eraill am ein lleoliad. Rydym eisoes wedi trefnu sawl digwyddiad drwy gydol y flwyddyn nesaf. Mae'r Neuadd Gymunedol hefyd wedi derbyn cyllid grant ar gyfer Winter Sounds eleni – dyddiadau o Dachwedd yr 21[ain] hyd at y 23[ain].

**17.2. Cyfarfod Darganfod Llan** Mae 500 calendr wedi'u harchebu ac fe fyddan nhw ar werth o ddydd Sul yma. Mae'r cynllun lle yn mynd rhagddi'n dda, gyda nifer o bobl yn cwblhau'r holiadur. Mae'r wythnos gelfyddydau'n cael ei hyrwyddo ar gyfer haf 2026. Mae'n ymddangos fel y bydd yn gyfres sylweddol o ddigwyddiadau dros gyfnod o wythnos.

**17.3. Gwasanaeth Dinesig Penmaenmawr** – Aeth y Dirprwy Faer Sharne-Marie Bellis i'r digwyddiad ac adroddodd ei fod yn ddigwyddiad da. Roedd cyfle iddi wneud cysylltiadau a chysylltiadau rhwydweithio newydd.

**<u>17.4. Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl</u> roedd 15 yn bresennol. Fe wnaeth pawb basio arholiadau ar y dydd, ond mae angen i'r corff dyfarnu gadarnhau hyn. O ganlyniad, mae gennym 31 o weithwyr cymorth cyntaf iechyd meddwl yng nghymuned Llanfairfechan. Fe wnaethom ddefnyddio Hwb Ray Jones ar y diwrnod cyntaf a Siambr y Cyngor ar yr 2[il] ddiwrnod. Derbyniwyd adborth bod Hwb Ray Jones yn ymarferol ond yn gyfyng. Fe ddylem ni ystyried defnyddio Siambr y Cyngor yn unig y tro nesaf. Mae hyn yn dirwyn y rownd o gyllid Dŵr Anafon i ben. Gallwn ymgeisio am fwy o gyllid ym mis Chwefror y flwyddyn nesaf. Awgrymwyd y dylem ni gysylltu gydag ysgolion i weld a oes modd inni ddenu athrawon i gyflawni'r hyfforddiant. Dylai'r hyfforddiant fod ar benwythnos / yn ystod hanner tymor hefyd.**

**<u>17.5. Cyfarfod gyda Chlercod Conwy a CBSC</u> Aeth Clerc y Dref i'r cyfarfod a chyflwynodd y syniad y dylai CBSC ddarparu hyfforddiant i Gynghorau Lleol sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldebau roedd CBSC arfer ymgymryd â nhw (pyllau padlo/toiledau/garddio). Roedd ymateb cadarnhaol i'r syniad hwn a rhoddir amserlen i'r cyngor lleol am eu hanghenion hyfforddiant.**

**<u>17.6. Cyfarfod Pobl Hŷn Cymru a Chyngor Gweinidogol –</u> Aeth y Cyng. Andrew Hinchliff BEM i'r cyfarfod a phwysleisiodd (ar y cyd â Un Llais Cymru) bod angen iddyn nhw ddefnyddio'r grantiau sydd ar gael i gynghorau lleol i ofalu bod pobl hŷn yn cymryd rhan yn y gymuned. Gallwn glywed mwy am hyn yn y dyfodol.**

**<u>Penderfynwyd derbyn a nodi</u>**

**<u>18. Derbyn canmoliaethau, cwynion a materion brys i'w dwyn i ystyriaeth a'u cofnodi ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol</u>**

**1. Mae'r cyhoedd yn bryderus am oleuadau stryd sydd wedi'u diffodd ger gwaelod ffordd Caeffynnon. Maen nhw wedi diffodd ers pythefnos bellach. Maen nhw wedi'u hadrodd amdanyn nhw ar y rhaglen Rhoi Gwybod. Mae'r polion lamp sydd wedi'u heffeithio ar hyd Ffordd Aber ger gwaelod ffordd Caeffynnon ac i fyny tua gwaelod ffordd Caeffynnon. Mae yna hefyd olau wedi diffodd ger y fynwent. Y tro diwethaf y digwyddodd hyn roedd Conwy yn ei chael hi'n anodd canfod pwy oedd yn berchen ar y polyn lamp oherwydd mae rhai'n eiddo i Scottish Power ac ati. Clerc y Dref i anfon e-bost at Adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau i holi am y diweddaraf.**

**2. Mae'r AS Claire Hughes wedi derbyn y newyddion fod ganddi gancr y fron. Awgrymwyd anfon cerdyn 'gwellhad buan' ati gan y Cyngor Tref. Clerc y Dref i drefnu hyn.**

**3. Mae'r cyhoedd wedi adrodd bod cerbydau cwmni Dragon Roofing yn parcio ar y palmant / yn y ffordd y tu allan i'w swyddfa ger y goleuadau traffig. Mae hyn yn achosi perygl ar y ffordd neu'n rhwystro pobl rhag gallu defnyddio'r llwybr troed. Dirprwy Glerc i hysbysu Conwy o'r broblem. Gofynnwyd i'r Cynghorwyr am dynnu lluniau a'u hanfon at Glerc y Dref / Dirprwy Glerc y Dref os ydyn nhw'n digwydd gweld parcio peryglus.**

**4. Postyn ger y pwll cychod / hwyaid sy'n cyfeirio pobl at y cob wedi'i wthio drosodd. Mae Clerc y Dref yn trefnu iddo gael ei ail-osod. Soniodd y Cyng. Leena Farhat y cafodd y postyn ei dynnu gan rywun dros dro cyn iddo gael ei ddychwelyd. Cytunodd y Cyng. Andrew Hinchliff BEM y gellid cadw'r postyn yn ei ardd dros dro i'w gadw'n ddiogel cyn ei ail-osod. Dirprwy Glerc y Dref i ofyn i James symud y postyn i ardd y Cyng. Andrew Hinchliff BEM.**

**5. Estynnwyd diolch i Swyddog yr Amgylchedd James sydd wedi cyflawni gwaith gwych yn clirio dail / malurion yr Hydref. Cytunodd y Cyngor Tref i'w enwebu am dystysgrif gwerthfawrogiad.**

**6. Soniodd y Cyng. Rhys Griffiths y cafodd clo giât yr Ardal Gemau Amlddefnydd ei dorri gan hyfforddwr pêl-droed a oedd yn trafferthu gydag anaf ar y cae a doedd dim modd iddo adael y cae drwy'r brif giât. Bellach mae gan Glwb Pêl-droed allwedd i'r giatiau mwy.**

**<u>Penderfynwyd derbyn a nodi</u>**

**Daeth y cyfarfod i ben am 9:25yh**